CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD GORFFENNAF 15, 2025

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Rhydygorlan**
**Nos Fawrth, Mehefin 17, 2025 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

**Presennol** Gerallt Griffith (Cadeirydd) Meurig Ashton, Karen Goswell, Peredur Jenkins, Rhun Prys Jones, Llion Williams ac Aaron Roberts. Hefyd Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd.** Croesawyd pawb i'r cyfarfod yn enwedig Aaron Roberst aelod newydd.

**2. Ymddiheuriadau:** Emlyn Roberts, Robin Jones.

**3. Datgan diddordeb.**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 17, 2025**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Mehefin 17, 2025**

Eitem 6.b. Llythyr (20/6/2025) oddi wrth Robin Jones i'r aelodau yn gofyn am eu barn ar fainc a hysbysfwrdd sydd ar gael.

Anfonwyd i'r aelodau (24/6/2025) cynllun paratowyd i Sign Workshop, Ganllwyd ei wneud, a gofyn am eu barn. Anfonwyd hefyd i'r aelodau llun o'r fainc sydd ar gael gan Wynnstay am £444; maent i'w gweld o gwmpas tref Dolgellau. Mae Henry yn ddiolchgar i Robin Jones am ei help gyda'r cynllun.

Llythyr (26/6/2025) gan Llion Williams, ac anfonwyd ymlaen i'r aelodau, yn rhoi gwybod mae problemau gyda'r hysbysfwrdd pren Llanfachreth – mae'r pren yn pydru, ddim yn dal dŵr ac angen ei beintio'n flynyddol. Roedd rhai aelodau yn cytuno gyda Llion.

Anfonwyd (26/6/2025) y ffurflen am y grant i Mr Huw Antur Edwards yw siecio ei fod yn gywir. Cafwyd ateb ganddo (3/7/2025) ac roedd dipyn mwy o waith nac roedd Henry wedi sylweddoli i lenwi'r ffurflen. Fel awgrymodd Mr Edwards, anfonwyd llythyr (3/7/2025) i Neuadd Bentref Brithdir yn gofyn am lythyr ganddynt yn nodi maent yn hapus gyda'r bwriad i roi hysbysfwrdd newydd ar wal y Neuadd. Llythyr ateb (15/7/2025) oddi wrth Neuadd Bentref Brithdir yn rhoi caniatad i roi'r hysbysfwrdd ar y Neuadd a'i osod wrth y peiriant defib. Llythyr (24/6/2025) oddi wrth Geraint Evans yn rhoi gwybod mae Neuadd Brithdir yn holi os mae'n bosib symud yr hysbysfwrdd sydd wrth ymyl lle roedd ciosg ffôn arfer bod.

Anfonwyd (1/7/2025) i'r aelodau sampl o hysbysfwrdd wedi ei wneud o

blastig ail gylchu. Y gost am hysbysfwrdd yw £931.93 ac £1,249.93 yn cynnwys dau bostyn. Mesuriadau y ddau hysbysfwrdd presennol yw 1.0m x 0.850m a mesuriadau yr hysbysfwrdd newydd yw 0.837m x 0.760m. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau mi fysa Henry yn ddiolchgar i'r aelodau archebu a gosod yr hysbysfyrddau a'r meinciau.

Llythyr anisgwyl (9/7/2025) gan Cefnogi Cymunedau ym Meirionnydd, Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae cyfraniad o £5,000 ar ein cyfer ond yn aros am ein ffurflen gais. Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Anfonwyd (14/7/2025) ein cais i Swyddog Prosiect Adfywio Trefi (Gwynedd Ni), Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd.

Llythyr (14/7/2025) oddi wrth Huw Antur Edwards yn rhoi gwybod mae cynghorau cymuned yn cael eu hannog i fynd am y swm cyfan o £5,000 os mae syniadau pendant gennym.

Gofynnwyd i'r aelodau os mae ganddynt syniadau am rywbeth arall. Emlyn a Robin yn awgrymu rhoi un wrth Neuadd Rhydymain.

Penderfynwyd derbyn dau hysbysfwrdd plastig ail gylchu (un yw gosod ar wal Neuadd Brithdir wrth y peiriant diffibriliwr, a'r llall yn Rhydymain yn lle yr un presennol) a derbyn pedair mainc blastig ail cylchu a'u gosod yn Top Torrent, yn Hengaer, Brithdir ac yn Rhydymain wrth y Neuadd. Y gost fydd:
£931.93 + £1,249.93 + (£444 x 3) + £500 (amcangyfrif cost llafur) = £4,013.86.

Eitem 5. Eitem 7.c. Llythyr (20/6/2025) oddi wrth Neuadd Rhydygorlan yn rhoi caniatad i ni ddefnyddio'r Neuadd.

Eitem 10.a. Llythyr ateb (1/07/2025) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod :

1. Mae cwter wrth giat terfyn Doluwchadda ar ddechrau ffordd Bwlch Goriwaered, Llanfachreth wedi ei agor.

2. Mae trefniadau wedi cael ei wneud i docio coedyn sydd gyferbyn a mynediad y maes parcio wrth yr ysgol yn Llanfachreth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

## 6. Gohebiaeth

a. Llythyr (24/6/2025) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Tim Tacluso Ardal Ni yn gwneud gwaith rhwng 30/6 a 4/7/2025 yn Brithdir a Llanfachreth. Hefyd, byddant yn torri coeden sydd dan bont droed ac adnewyddu canllaw y bont yn Rhydymain.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr pwysig (25/6/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae angen

newid eu trefniadau llywodraethu ac i wneud hyn bydd Cyfarfod Cyffredinol Arbennig yn cael ei gynnal ar ddydd Mercher, Medi 3, 2025 am 4.00yp trwy gyswllt o bell. I gynnal y cyfarfod mae rhaid i 20% o aelod Cynghorau fod yn bresennol. Maent angen enw y Cynghorydd bydd yn bresennol.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd i Gerallt fod yn bresennol.

c. Llythyr (24/6/2025) oddi wrth Cylch yr Iaith ynglŷn â'r enw Saesneg 'The Spinnies', Aberogwen sydd dan ofal Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Rhoddwyd yr enw 'The Spinnies' ar y lleoliad flynyddoedd yn ôl ond yr hen enw yw 'Llyn Celanedd'. Maent angen ein cefnogaeth i ddefnyddio'r enw 'Llyn Celanedd' yn lle 'The Spinnies'. Amgáu mae neges barod ei anfon i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru i gefnogi'r enw Gymraeg.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd cefnogi'r syniad o ddefnyddio yr enw Gymraeg.

ch. Llythyr (26/6/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd eu cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionydd yn Neuadd Drefol, Penrhyndeudraeth ar 16/7/2025 am 7:00yh. Amgáu mae Agenda a Chofnodion cyfarfod 14/5/2025,.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (7/7/2025) oddi wrth Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol, Cyngor Gwynedd sydd angen gwybodaeth ar faterion hinsawdd a natur leol. Amgau mae holiadur i'w lenwi. Gofynnwyd i'r aelodau i lenwi'r holiadur.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd ail anfon y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (7/7/2025) oddi wrth Un Llais Cymru gyda Bwletin Rhifyn 6 yn cynnwys cyrsiau hyfforddiant am fis Gorffennaf.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

e. Llythyr (10/7/2025) oddi wrth Cofrestrfa Tir EF yn cynwys hysbyseb ynglŷn â thir (yr hen Ysgol) yn Llanfachreth. Maent angen gwybod os rydym yn gwrthwynebu neu yn cytuno cofrestru y tir yn enw Cyngor Gwynedd. Angen gwybod cyn 30/7/2025.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd cefnogi cofrestru y tir yn enw Cyngor Gwynedd. Oherwydd ein penderfyniad i gefnogi, nid oedd angen rhoi gwybod i Cofrestrfa Tir EF.

f. Llythyr (15/7/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgáu dogfen 'Lwfansau Aelodau'.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ff. Llythyr (15/7/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys cyrsiau hyfforddiant

am Gorffennaf – Medi.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Llythyr (19/6/2025) yn rhoi gwybod mae gwahoddiad i ddigwyddiad alw i mewn i rannu gwybodaeth i helpu i ddatblygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) Eryri. Bydd y digwyddiad ym Mhlas Tan y Bwlch ar 25 Mehefin rhwng 10.00 a 4.00.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (20/6/2025) gyda linc i recordiad Fforwm Cymunedau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (24/6/2025) yn rhoi gwybod mae swm rhwng £5,000 - £25,000 ar gael i grwpiau / cymdeithasau gan gynwys cynghorau cymuned a thref. Angen ceisiadau erbyn Awst 1, 2025.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**8. Materion Ariannol**

a. Llythyr (25/6/2025) oddi wrth Cefnogi Cymunedau ym Meirionnydd, Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae cronfa cynlluniau bwyd ar gael i sefydliadau sy'n paratoi bwyd.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (25/6/2025) oddi wrth Cefnogi Cymunedau ym Meirionnydd, Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am Cronfa Degwm sydd ar gael i Elusennau Cofrestredig.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (7/7/32025) oddi wrth Cerebral Palsy Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ch. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/6/2025: £1,194.60
Balans yn y banc ar 29/6/2025: £9.078.46.

**9. Archwilio**

**10. Materion yr Aelodau**

**11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

a. Llythyr ateb (19/6/2025) oddi wrth Ken Skates, Trafnidiad a Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru ynglŷn â Phont-y-Ffatri Rhydymain ar yr A494. Bydd y gwaith ar y bont yn cael ei wneud cyn diwedd 2025/2026 os bydd cyllid ar gael. Bydd y goleuadau traffic yn parhau yn eu lle nes bydd y gwaith wedi'i gwblhau. Mae'n rhun fath gyda'r goleuadau traffic ar y ffordd rhwng Bethel a Glanrafon.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (6/7/2025) yn rhoi gwybod mae Delyth a Chynghorydd Jina Gwyfrai wedi cyflwyno cynnig i Gyngor Llawn Gwynedd ar 3/7/2025 yn ymwneud â 'Ffermydd teuluol Gwynedd yn cynnal tirwedd, iaith a threftadaeth'. Mae cynnig San Steffan yn fygythiad i fywoliaeth cenedlaethau o deuluoedd amaeth yng Ngwynedd a'r economi wledig yn gyffredinol.

c. Eilwyd cynnig parthed Y treth etifeddiaeth a sut mae yn effeithio ar y Fferm deuluol. Yr economi wledig a hefyd yr iaith Gymraeg. Anfonwyd i'r aelodau datganiad cafodd ei roi i'r wasg i gyd fynd ar cynnig.

ch. Erthygl 4 – nifer o dai o dan y categori yma wedi eu ddatgan gan y Parc yn ddiweddar. Mae 19% o'r stoc tai yn ardal Brithdir a Llanfachreth yn dod i mewn i'r categori uchod. Mae y targed yn 15%.

d. Pensaer George a Tomos Machynlleth wedi ei benodi i weithio ar datblygiad tai Llanfachreth

dd. Coed y Brenin - mae cyfarfod gyda Uwch Swyddog a Caru Coed y Brenin wedi ei drefnu ar 30/7/25

e. Byddaf yn ôl yn gweithio i Liz Saville Roberts ym Mis Awst. Croeso i etholwyr dod i mewn i drafod materion y ward yn y bore

f. Materion Tai – nifer o etholwyr yr ardal wedi cael help i gofrestru efo Tai Teg.

ff. Y Parc - Cynllun Ffermio Bro wedi cael llawer iawn o ddiddordeb a ceisiadau

g. Pont Ffatri Rhydymain – llythyr wedi ei anfon ataf gan Mabon ap Gwynfor wedi ei rhannu gyda'r Aelodau. Cwrs gyda YGC. Dwi yn cymerid mai Pont y Ffatri ar yr A494, ble mae'r goleuadau traffic mewn lle da ni son amdano. Pont Cefnffordd yw hon o dan reolaeth NMWTRA, ac mae nhw wedi ein comisiynnu (YGC) i edrych ar waith cryfhau yno. Ein briff yw i edrych ar ddatrysiad i gryfhau y waliau yn dilyn i fyny at y bont, ac rydym yn gweithio arno ar hyn o bryd. Bydd gwaith profi ar safle yn digwydd yn yr haf i gadarnhau fod y datrysiad yn bosib (h.y.Pinio'r waliau at ei gilydd i alluogi gweithio a gadael y ffordd yn agored). Mae NMWTRA yn gobeithiol fydd y gwaith dylunio yn cael ei gwblhau cyn y Nadolig, gyda'r bwriad i gychwyn y gwath safle at ddiwedd y flwyddyn ariannol yma. Cofion, Rhys, Owen Rhys Jones CEng. MIStructE

h. Pont Lefel Llanfachreth – cefais sgwrs gyda Dylan Erfyl Peiriannydd y Cyngor.

Mae yn adrodd ei fod wedi cael ymgynghoriad gyda arbenigwr parthed y Bont.

i. Ysgol Y Ganllwyd - Cwmni George a Tomos wedi ysgrifennu at berchennog yr eiddo ar ein rhan. Aelod Cabinet yn trafod dyfodol y safle gyda swyddogion y Cyngor gan fod y lleoliad o fewn y ffin gynllunio.

Llofnod: Dyddiad: